**Y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol EUR 04-02 (p2)**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | **12 Mehefin 2002** |
| **Amser:** | **9:30am** |
| **Lleoliad:** | **Ystafelloedd Pwyllgora 3 &4, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol** |
| **Teitl:** | **Dyfodol y Cronfeydd Strwythurol** |

**Diben**

1. Mae’r papur yn rhoi adroddiad i Aelodau ar y gynhadledd dechnegol ar ddyfodol polisi rhanbarthol yr UE a gynhaliwyd gan y Comisiwn Ewropeaidd ym Mrwsel yn ddiweddar. Papur i’w nodi ydyw.

   **Crynodeb/Argymhellion**

2. Cynhaliwyd y gynhadledd, o dan y teitl "The Union’s priorities for the regions – Defining Community value added" ym Mrwsel ar 27/28 Mai. Yr oedd yn cynnwys dau gyfarfod llawn, y cyntaf yn cael ei gyflwyno gan Michel Barnier, y Comisiynydd dros Bolisi Rhanbarthol, a thri gweithdy technegol ar wahân.
3. Cynhaliwyd y gynhadledd fel rhan o ddyfodol parhaus y ddadl ar bolisi rhanbarthol Ewropeaidd. Hwn oedd y cyntaf o dri seminar y mae’r Comisiwn yn eu trefnu er mwyn rhoi cyfle i’r ystod ehangaf posibl o gyrff gyfrannu at y ddadl. Bydd seminar ar adnoddau dynol, ac mae’n debygol y cynhelir hwn naill ai ym mis Gorffennaf neu fis Medi, a seminar ar symleiddio’r cronfeydd strwythurol, y bwriedir ei gynnal ar ddechrau 2003. Disgwylir trydydd adroddiad ar gydlyniant economaidd a chymdeithasol ar ddiwedd y flwyddyn nesaf, gyda rheoliadau drafft cronfeydd strwythurol yn cael eu dwyn ymlaen gan y Comisiwn yng ngwanwyn 2004.
4. Cynrychiolwyd Llywodraeth Cynulliad Cymru gan un o swyddogion yr Is-adran Materion Ewropeaidd ac Allanol, sy’n cynghori’r gweinidogion ar ddyfodol cronfeydd strwythurol, ar ôl 2006 (pan ddaw’r cylch presennol o raglenni i ben); a chan un o swyddogion Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru. Yr oeddent yn bresennol fel rhan o ddirprwyaeth y DU, o dan arweiniad yr Adran Masnach a Diwydiant. Cynrychiolwyd llywodraeth leol ar lefel swyddogol, ac yr oedd cynrychiolwyr gwahanol gymdeithasau rhanbarthol, megis Cynhadledd y Rhanbarthau Ymylol ac Arforol yno hefyd.
5. Fel y gellid rhag-weld o bosibl, gan Sbaen, yr Almaen a’r Iseldiroedd, y cafwyd y prif

ymyriadau, ac mae’r rhain wedi bod yn mynegi eu safbwynt ers tro. Nododd y Comisiynydd Barnier rywfaint o feddylfryd y Comisiwn ar fframwaith posibl newydd ar gyfer Amcan 2. Fel arall, ni chafodd llawer o syniadau newydd eu cyflwyno ond yr oedd y seminarau’n caniatáu i’r Comisiwn ddod i nifer o gasgliadau ynghylch y meddylfryd presennol.

**Amseru**

6. Dim materion amseru.

**Cefndir**

7. Cymerodd aelodau’r Pwyllgor ran yn y trafodaethau ar lefel wleidyddol flwyddyn yn ôl. Ers hynny, nid yw’r aelod-wladwriaethau wedi dweud rhyw lawer at ei gilydd ynghylch eu safbwynt ar ddyfodol polisi rhanbarthol. Nid yw hyn yn destun pryder: fel y pwysleisiodd y Comisiynydd Barnier yn y seminarau, yr hyn y mae’r Comisiwn yn ei wneud yw adeiladu cyfnod ymgynghori hir iawn i mewn. Ni fydd y Comisiwn yn cyflwyno ei syniadau ar gyfer ar ôl 2006 tan y cyhoeddir y Trydydd Adroddiad ar gydlyniant Economaidd a Chymdeithasol, a hynny ar ddiwedd 2003 fan cynharaf. Felly bydd gan yr aelod-wladwriaethau ymhell dros flwyddyn i ystyried eu safbwynt.

**Ystyriaeth**

8. Agorodd Michel Barnier, y Comisiynydd dros Bolisi Rhanbarthol, y seminar drwy ddatgan y byddai’n cynnig cyfle gwerthfawr ar gyfer trafod yn y flwyddyn nesaf cyn i gynigion cadarn gael eu cyflwyno gan y Comisiwn. Fe osododd ddyfodol y ddadl ar bolisi rhanbarthol yng nhgyd-destun ehangach dyfodol dadleuon ar Ewrop. Wedyn nododd y Comisiynydd gynnig ar gyfer cefnogaeth heb fod yn Amcan 1 yn y dyfodol, a fyddai’n golygu bod y rhanbarthau a fydd yn elwa (awgrymodd Barnier y gallai’r rhain gael eu dewis gan yr aelod-wladwriaeth) yn dewis (ar y cyd â’u haelod-wladwriaeth) o "ddewislen neu "becyn" ar gyfer, cymorth, a allai gynnwys:

- y rhanbarthau trefol tlotaf
- ardaloedd sy’n cael eu hailstrwythuro yn ddiwydiannol
- ardaloedd gwledig
- rhanbarthau sydd ag anfanteision naturiol
- gweithgareddau rhyng-ranbarthol

9. Cafodd y cynigion ar gyfer cymorth y tu allan i ranbarthau Amcan 1 gefnogaeth gref, gyda’r person a oedd yn adrodd yn ôl (Iain Begg o Brifysgol South Bank) yn nodi dilysrwydd gwleidyddol rhaglenni o’r fath, er nad oedd cytundeb ynghylch sut i reoli’r amrywiaeth enfawr

o anghenion. Cafwyd cefnogaeth gref hefyd o blaid alinio amcanion polisi rhanbarthol ag agenda Lisbon bondigrybwyll (mwy o swyddi, a'r rheiny o ansawdd well; integreiddio cymdeithasol; cyfleoedd cyfartal; y gymdeithas wybodaeth.)

10. Yr oedd ehangu yn thema llawer llai blaengar nag yn Fforwm Cydlyniant y llynedd. Galwodd un siaradwr o Hwngari am hyblygrwydd ynghylch maint prosiectau (er enghraifft, ar gyfer pibellau nwy, rhwydweithiau ynni a TGC ym mhob pentref ……..)
11. Aeth y Comisiwn i drafferth mawr i geisio annog cyfranogwyr i beidio â thrafod cyllid, ond yn hytrach i ganolbwyntio ar syniadau am beth oedd yn gweithio a beth a allai weithio yn well mewn polisi rhanbarthol. Serch hynny, galwodd cynrychiolwyr yr Iseldiroedd a'r Almaen yn arbennig i gronfeydd strwythurol beidio â chael eu dyrannu o safbwynt canran o GDP cyffredinol yr UE: eu beirniadaeth oedd hyn : pe bai GDP yr UE yn cynyddu, cynyddu hefyd fyddai pecyn y cronfeydd strwythurol, ac yr oedd hyn yn wrthnysig o gofio y gellid dehongli bod cynnydd mewn GDP yn awgrymu yn rhannol bod y cronfeydd strwythurol wedi gwneud eu gwaith.
12. Yr oedd partneriaeth a gwledydd y UE yn themâu ailadroddus, gyda llawer o gynrychiolwyr yn mynegi'r farn bod y cronfeydd strwythurol yn darparu dolen gyswllt uniongyrchol â dinasyddion Ewrop, a bod y partneriaethau sy'n cael eu creu o ganlyniad i raglenni cronfeydd strwythurol yn un o'r canlyniadau allweddol. Thema arall oedd symleiddio'r cronfeydd, mater y bwriedir ymchwilio ymhellach iddo yn y gynhadledd yn gynnar y flwyddyn nesaf. Gwnaeth nifer o gynrychiolwyr y pwynt hefyd fod y sefydlogrwydd a ddarperir gan raglenni cronfeydd strwythurol chwe blynedd o gymorth lle'r oedd cylchoedd cyllidebol aelod-wladwriaethau yn fyrrach.
13. Mynegodd cynrychiolydd o Iwerddon y farn y dylai gwladwriaethau a rhanbarthau ddefnyddio cronfeydd strwythurol yn fwy i gyflawni eu nodau datblygu rhanbarthol eu hunain, fel yr oedd y Gwyddelod wedi'i wneud gyda llwyddiant mawr.
14. Cafodd rhaglenni trawswladol megis Interreg eu trafod yn helaeth. Er bod y rhain yn weddol fach o safbwynt cyllideb, cafodd manteision y rhaglenni hyn (creu partneriaethau trawsffiniol, y posibiliadau ar gyfer arloesi ac arbrofi) eu canmol. Yr oedd yn amlwg bod gan nifer o aelod-wladwriaethau sy'n rhannu ffiniau ag aelodau nad ydynt yn rhan o'r UE ddiddordeb yn y posibilrwydd o fwy o gymorth ar gyfer rhaglenni trawsffiniol gyda hwy: codwyd diogelwch a mewnfudo anghyfreithlon fel materion a allai gael eu cefnogi.

**Safbwynt y DU**

15. Rhoes swyddogion llywodraeth y DU a fynychodd y seminar nifer o bapurau polisi i gynrychiolwyr y DU cyn y digwyddiad a chynnal cyfarfod cyn-briffio yn UKREP ar 27 Mai. Dywedodd cynrychiolydd llywodraeth leol a oedd yn bresennol fod y papurau briffio yn awgrymu, yn ei farn ef, y gallai fod gan y DU ddiddordeb brwd mewn ailwladoli polisi rhanbarthol: esboniodd swyddogion y DU fod mai rhoi ystyriaeth bellach i'r syniad, ynghyd â syniadau eraill i'w hystyried oedd eu dymuniad, yn ddigon syml.
16. Yn y seminarau, nododd y DU'r safbwynt a fynegwyd ganddynt gynt sef na ddylai unrhyw benderfyniadau am y dyfodol gael eu gwneud yn niffyg gwerthusiad trylwyr o gyfraniad cronfeydd strwythurol at ddatblygu rhanbarthol, barn y mae Prif Weinidog Cymru wedi'i chefnogi gynt. Dywedasant y byddent yn mynd â syniadau i ffwrdd o'r gynhadledd; gan

awgrymu mai mater i'r Comisiwn bellach fyddai cyflwyno dewisiadau i aelod-wladwriaethau ac eraill eu hystyried.

**Casgliadau'r Comisiwn**

17. Mewn cyflwyniad cryno gan Guy Crauser, Cyfarwyddwr Cyffredinol Polisi Rhanbarthol, ar ddiwedd y gynhadledd 1.5 diwrnod, nododd y Comisiwn y canlynol fel y casgliadau yr oedd wedi'u tynnu o'r gynhadledd:

- fod yna gonsensws mawr y dylai rhanbarthau sydd ar ei hôl hi, boed yn yr UE presennol neu mewn UE wedi'i ehangu barhau i gael y gyfran fwyaf o'r cronfeydd strwythurol;

- nad rhanbarthau sydd ar ei hôl hi yw'r unig ranbarthau a ddylai gael cymorth, ond mae sut i gefnogi rhanbarthau eraill (hy ardaloedd heb fod yn ardaloedd Amcan 1) yn dal yn fater i'w drafod;

- y dylid ystyried bod rôl y Comisiwn yn rôl bwysig, a allai ddatblygu yn fwy fel *animateur* rhaglenni, ac wrth ddarparu cronfeydd ar gyfer rhaglenni y byddai aelod-wladwriaethau yn annhebygol o ganolbwyntio arnynt, megis rhaglenni ar gyfer cydweithrediad traws-Ewropeaidd.

- bod nifer sylweddol o gyfranogwyr (ar wahân i rai gwladwriaethau Gogleddol, sef yr Iseldiroedd yn bennaf) yn gwrthwynebu "ailwladoli" polisi rhanbarthol.

**Y Camau Nesaf**

10. Mae swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru yn bwriadu cynnal seminar yng Nghymru yn gynnar yn yr Hydref i ganiatáu i bartneriaid yma nodi eu barn ar anghenion Cymru yn y dyfodol, a gaiff ei chyfleu wedyn i lywodraeth y DU. Mae swyddogion yn disgwyl cael eu gwahodd i'r ddwy gynhadledd nesaf sy'n cael eu trefnu gan y Comisiwn. Fel y bydd aelodau yn ymwybodol, pan fydd y Comisiwn yn cyhoeddi cynigion cadarn, ar ddiwedd 2003, bydd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ran flaengar ar lefel y DU wrth baratoi ymateb.

**Cydymffurfio**

19. **Llywodraeth y DU sy'n cymryd yr awenau, fel Aelod-wladwriaeth, o ran datblygu a chydgysylltu polisi strwythurol a chydlyniant. DTI yw prif Adran Llywodraeth y DU ar faterion cydgysylltu; tra mae'r Concordat ar Gydgysylltu Materion Polisi'r Undeb Ewropeaidd yn nodi'r canlynol:**

*"Participation in formulation of UK Policy (including Resolution of*

*Differences)*

B3.4 It is the Government's intention that Ministers and officials of the devolved administrations should be fully involved in discussions within the UK Government about the formulation of the UK's policy position on all issues which touch on matters which fall within the responsibility of the devolved administrations."

10. Mae DTLR, gweithrediaeth yr Alban a gweithrediaeth Gogledd Iwerddon a Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gyfrifol am rheoli rhaglenni cronfeydd strwythurol. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi dirprwyo gwaith rheoli prif rhaglenni cronfeydd strwythurol presennol Cymru i Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru. Cynghorir y Cabinet ar faterion polisi strwythurol a chydlyniaeth gan y Is-adran Materion Ewropeaidd ac Allanol.
11. Nid oes unrhyw faterion arian yn deillio o'r papur hwn.

**Enwau cyswllt**

12. Cronfeydd strwythurol ar ôl 2006: Jackie Brown, Yr Is-adran Materion Ewropeaidd ac Allanol, estyniad 3157 jacqueline.brown@wales.gsi.gov.uk.